SICRHAU
GWELLIANT TRWY
AROLYGU
ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol [Â rhybudd]

## Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys, **Practis Deintyddol M. J. Taylor**

18 Tachwedd 2014

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni: Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn**: 0300 062 8163
**Ebost**: agic@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.hiw.org.uk


ISBN digidol 978-1-4734-2779-2
© Hawlfraint y Goron 2015

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Methodoleg ........ 2
3. Cyd-destun ........ 4
4. Crynodeb ........ 5
5. Canfyddiadau ........ 6

   Profiad y Claf ........ 6

   Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru ........ 8

   Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 10

   Ansawdd yr Amgylchedd ........ 11

6. Y Camau Nesaf ........ 12

   Atodiad A ........ 13

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad â rhybudd o Bractis Deintyddol M. J. Taylor yn 17 Commercial Street, Ystradgynlais, Abertawe, SA19 1HD yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys ar 18 Tachwedd 2014.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau gan AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda y mae practisau'n bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*[1].

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth gan nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle

---

[1]Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.
www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan

Ar ddiwedd pob arolygiad, darperir trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Caiff canfyddiadau o'r math hwn eu manylu, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, o fewn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol M. J. Taylor yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Ystradgynlais, Powys. Mae’r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys un deintydd, tair nyrs ddeintyddol ac un derbynnydd (sydd hefyd wedi cymhwyso fel nyrs ddeintyddol).

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Prostheteg
- Rhywfaint o ddeintyddiaeth gosmetig
- Gwynnu dannedd
- Gorchudd dannedd
- Gorchudd nos
- Corunau porslen / corunau aur
- Argaenau
- Triniaeth ataliol a thriniaeth beriodontol

## 4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae Practis Deintyddol M. J. Taylor yn bodloni safonau gofal yn y ddogfen Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Ar y cyfan, gwelsom nifer o ganfyddiadau cadarnhaol yn ystod yr arolygiad hwn. Gwnaethom rai argymhellion ar gyfer gwelliant hefyd a nodir isod:

Dywedodd cleifion yn unfrydol wrthym eu bod yn hapus â'r gwasanaethau a ddarperir yn y practis; roedd rhai ohonynt wedi bod yn gleifion yn y practis am dros 30 mlynedd. Dywedodd y practis wrthym nad oeddent wedi derbyn unrhyw gwynion mewn rhyw 20 mlynedd, ac ni allent gofio'r tro diwethaf iddynt dderbyn unrhyw gwynion.

Gwelsom safon uchel o gofnodi yn nodiadau'r cleifion ar y cyfan, a oedd yn dangos bod y driniaeth a dderbyniwyd yn y practis yn cael ei gynllunio a'i gyflenwi'n dda. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud dau argymhelliad ar sut y gellid gwella cofnodion cleifion ymhellach.

Gwelsom fod y practis wedi ychwanegu cam arall at y broses dadheintio nad oedd o bosibl yn angenrheidiol nac yn fuddiol, a gwnaethom gynghori'r practis i ddileu'r cam hwn.

Roedd systemau diogel ar waith yn y practis ar gyfer defnyddio a chynnal offer radiograffeg, ond roedd angen sicrhau bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ymwybodol eu bod yn defnyddio offer radiograffeg yn yr adeilad.

Gwelsom ni (AGIC) dîm bach, cydlynol yn y practis, a gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth gref gan y deintydd / rheolwr practis.

Roedd adeilad ac amgylchedd y practis y lân ac yn addas i ddarparu gofal diogel i gleifion.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Crynodeb**

**Dywedodd cleifion yn unfrydol wrthym eu bod yn hapus â'r gwasanaeth a ddarperir yn y practis; roedd rhai ohonynt wedi bod yn gleifion yn y practis am dros 30 mlynedd.Dywedodd y practis wrthym nad oeddent wedi derbyn unrhyw gwynion mewn rhyw 20 mlynedd, ac ni allent gofio'r tro diwethaf iddynt dderbyn unrhyw gwynion.**

Ein prif ddull o gasglu barn cleifion ar gyfer yr arolygiad hwn oedd trwy ddosbarthu holiaduron wedi eu hargraffu ymlaen llaw i gleifion cyn ein hymweliad arolygu. Cwblhawyd a dychwelwyd 23 holiadur. Cawsom hefyd gyfle i weld canlyniadau'r arolwg cleifion diweddaraf a gynhaliwyd gan y practis.

Roedd yr adborth y gwnaethom ei dderbyn a'r adborth y gwnaeth y practis ei dderbyn yn gadarnhaol iawn; mewn gwirionedd, ni chafwyd unrhyw ymatebion negyddol. Cawsom ganiatâd gan y rhai a ymatebodd i'n holiadur i ddefnyddio'r wybodaeth a gawsom ganddynt, ac rydym wedi cynnwys isod sampl o'r sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd:

*"Staff yn gyfeillgar ac effeithlon iawn"*

*"Bodlon iawn"* (gyda'r gwasanaeth a ddarperir)

*"Gwasanaeth ardderchog"*

Dywedodd cleifion wrthym hefyd nad oeddent wedi profi unrhyw oedi hir wrth aros am eu hapwyntiad.

Roedd gweithdrefn gwyno ar waith, ac roedd hon yn amlinellu'r cyfnodau amser y byddai'r practis yn ceisio cadw atynt wrth ymdrin ag unrhyw bryderon / cwynion. Fodd bynnag, dywedodd staff wrthym nad oeddent wedi derbyn unrhyw gwynion dros yr 20 mlynedd diwethaf, ac felly nad oeddent wedi cael achos i ddefnyddio'r weithdrefn.

Gwnaethom sylwi bod poster / arwydd cwynion ger y dderbynfa ond nid yn y brif ardal aros. Nododd saith o'r unigolion a wnaeth ymateb i'r holiadur na fyddent yn gwybod sut i wneud cŵyn; fodd bynnag, dylid nodi bod un ohonynt wedi datgan nad oedd am wneud cwyn chwaith. Byddem yn dal i argymell y practis i wella hygyrchedd yr wybodaeth hon a hefyd i sicrhau bod ffont ac iaith y poster yn hygyrch i gymaint â phosibl o boblogaeth eu practis.

***Argymhelliad***

***Dangos gwybodaeth am sut i wneud cŵyn, gan gynnwys cyrff perthnasol eraill y gellir cyfeirio'r gŵyn atynt, yn y brif ardal aros, gan ddefnyddio maint ffont ac iaith sydd mor hygyrch â phosibl i boblogaeth y practis.***

## *Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*

**Crynodeb**

**Gwelsom safon uchel yn gyffredinol o ran cofnodi nodiadau cleifion, a oedd yn dangos bod y driniaeth a dderbyniwyd yn y practis yn cael ei gynllunio a'i gyflenwi'n dda. Er hynny, rydym wedi gwneud dau argymhelliad ar sut y gellid gwella nodiadau cleifion ymhellach.**

**Gwelsom fod y practis wedi ychwanegu cam arall at y broses dadheintio nad oedd o bosibl yn angenrheidiol nac yn fuddiol, a gwnaethom gynghori'r practis i ddileu'r cam hwn.**

**Roedd systemau diogel ar waith yn y practis ar gyfer defnyddio a chynnal offer radiograffeg, ond roedd angen sicrhau bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ymwybodol eu bod yn defnyddio offer radiograffeg yn yr adeilad.**

Gwnaethom archwilio cofnodion pum claf yn ystod yr arolygiad hwn. Gan mai dim ond un deintydd sydd yn y practis, roedd pob cofnod wedi cael ei gofnodi ganddo ef – ni ddefnyddiwyd deintyddion locwm o gwbl. Mae'r holl gofnodion yn y practis yn cael eu hysgrifennu â llaw, a gwelsom fod ansawdd a manylion y cofnodion o safon uchel ar y cyfan. Gwelsom fod angen diweddaru hanes meddygol yr holl gleifion (o'r sampl a welsom), a gwelsom hefyd nad oedd yr hanes meddygol yn y nodiadau wedi cael ei gydlofnodi gan y deintydd er mwyn cadarnhau eu bod wedi cael eu darllen.

***Argymhelliad***

***Dylid sicrhau hanes meddygol cyfredol i bob claf, a dylai'r deintydd eu cydlofnodi er mwyn cadarnhau eu bod wedi cael eu darllen.***

Yn gyffredinol, roedd y cofnodion yn cynnwys manylion y broblem, y rheswm dros fynychu a'r symptomau, ond nid oedd yr wybodaeth hon ar gael bob tro. Roedd cydsyniad cleifion hefyd yn cael ei gofnodi mewn modd anghyson.

***Argymhelliad***

***Rhaid nodi'r rheswm dros fynychu, y symptomau, a chydsyniad y claf ar bob cofnod claf.***

Mae un ddeintyddfa yn y practis, ac mae offerynnau'n cael eu dadheintio yn yr ystafell hon hefyd. Gwelsom fod system eglur iawn ar waith. Roedd dau nyrs ddeintyddol yn mireinio'r broses ymhellach trwy drin a thrafod offer glân ac offer budr ar wahân. Roedd y ddeintyddfa a'r ystafell ddadheintio yn lân iawn yn ôl

pob golwg. Roedd y practis wedi ychwanegu cam arall at y broses dadheintio, ac roeddent yn rhoi offer trwy'r awtoclaf ddwywaith. Nid oedd buddiannau'r cam ychwanegol hwn yn eglur, ac ni allem weld bod gwneuthurwr yr awtoclaf yn ei argymell chwaith.

***Argymhelliad***

***Penderfynu a yw'r cam dadheintio ychwanegol yn briodol (cysylltu â'r gwneuthurwr) a diwygio'r arfer hwn yn ôl y cyngor a dderbynnir.***

Unwaith yr oedd offer wedi cael ei sterileiddio, rhoddwyd sticer lliw arno a oedd yn dynodi'r flwyddyn. Byddai’n cael ei gadw wedyn nes cael ei ddefnyddio'r tro nesaf. Fodd bynnag, cafwyd rhywfaint o newidiadau i ganllawiau yn ddiweddar, ac mae’n rhaid i'r practis sicrhau nad ydynt yn cadw offer wedi ei sterileiddio am gyfnod hirach na'r hyn a argymhellir bellach. Unwaith iddynt gael eu sterileiddio, dylid dyddio eitemau’n eglur yn ogystal â rhoi sticer lliw arnynt, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

***Argymhelliad***

***Sicrhau bod offerynnau’n cael eu cadw am y cyfnod a nodir gan y canllawiau diweddaraf yn unig, a nodi dyddiadau sterileiddio yn eglur arnynt.***

Roedd rhestr wirio ddyddiol ar gyfer cyflenwi'r ddeintyddfa a'i chadw'n lân yn cael ei harddangos yn glir ac yn amlwg yn cael ei defnyddio. Roedd y practis hefyd yn cynnal archwiliadau rheolaidd o reoli heintiau ac yn gweithredu'n brydlon i gywiro unrhyw bryderon a nodwyd.

Er bod dogfennau yn y practis sy’n cefnogi’r ffaith bod offer radiograffeg yn cael ei ddefnyddio’n diogel o ddydd i ddydd, dylai practisau hysbysu / cofrestru â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch er mwyn iddo fod yn ymwybodol bod offer radiograffeg yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd yn yr adeilad. Er bod y deintydd yn hyderus bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cael ei hysbysu, nid oeddem yn gallu canfod cadarnhad ysgrifenedig o hyn.

***Argymhelliad***

***Sicrhau cyngor gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â defnydd o offer radiograffeg yn yr adeilad.***

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Crynodeb**

**Gwelsom ni (AGIC) dîm bach, cydlynol yn y practis, a gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth gref gan y deintydd / rheolwr practis.**

Roedd y prif ddeintydd wedi bod yn y practis ers 1981 ac ef oedd rheolwr y practis hefyd. Roedd y tîm staff o dair nyrs ddeintyddol a derbynnydd wedi gweithio yno am nifer o flynyddoedd, ac roedd trosiant staff yn eithriadol o isel. Yn ôl pob golwg, roedd y tîm yn hapus yn cydweithio, ac roedd ganddo systemau sefydledig a rolau a chyfrifoldebau wedi eu diffinio'n eglur.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu trafod materion o ddydd i ddydd, ac o ganlyniad nad oedd angen cyfarfodydd staff ffurfiol arnynt. Fodd bynnag, roedd ganddynt ffeiliau hyfforddiant oedd wedi cael eu cadw'n dda, ac roedd y rhain yn dangos tystiolaeth o'u hyfforddiant parhaus a'u tystysgrifau. Gwelsom dystiolaeth hefyd o adroddiadau ysgrifenedig yn dilyn sesiynau arfarnu staff. Fodd bynnag, nid oedd dyddiad ar y rhain, ac felly nid oeddem yn gallu dweud pryd yr oeddent wedi digwydd. Nid oeddent yn cynnwys llawer o wybodaeth chwaith ar gynllunio ar gyfer y dyfodol a gosod amcanion ar gyfer datblygiad unigolion.

***Argymhelliad***

***Sicrhau bod cofnodion arfarniadau staff yn dangos dyddiad ac yn cynnwys cynllun ar gyfer y dyfodol sy'n ystyried meysydd ar gyfer datblygiad.***

Gwelsom gofnodion cynnal a chadw ar gyfer rhywfaint o'r offer a oedd yn cael ei ddefnyddio yn y practis; roeddent yn gyfredol ac roedd cofnodion yn drefnus ac yn eglur. Roedd trefniadau eglur ar waith i sicrhau bod gwasanaethu a phrofi offer yn digwydd yn unol ag amserlenni diogelwch.

Roedd y derbynnydd yn cadw llyfr damweiniau, ond nid oedd unrhyw gofnodion wedi'u gwneud ynddo. Cadarnhaodd y staff na chafwyd unrhyw ddigwyddiadau oedd angen eu cofnodi yn y llyfr.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Crynodeb**

**Roedd adeilad ac amgylchedd y practis yn lân ac yn addas i ddarparu gofal diogel i gleifion.**

Mae'r practis yn cael ei redeg o dŷ tref wedi ei addasu yng nghanol Ystradgynlais. Roedd digon o le parcio mewn maes parcio cyhoeddus y tu ôl i'r adeilad, ac roedd rhai mannau parcio ar y stryd y tu allan i'r practis.

Roedd yr ardaloedd i gleifion i gyd ar y llawr daear, gyda mynediad gwastad trwy'r adeilad i gyd. Er nad oedd yr holl ddrysau mewnol yn edrych yn ddigon eang, dywedodd staff yn y practis wrthym fod ganddynt gleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn a'u bod yn gallu mynd o amgylch y practis yn ddidrafferth.

Roedd y practis yn daclus, heb annibendod, ac roedd yn amlwg yn lân, gan gynnwys yr ardaloedd nad oedd cleifion yn eu defnyddio. Y derbynnydd a’r staff nyrsio deintyddol sy'n gyfrifol am lanhau yn y practis, a dangosodd y safonau a welsom ni eu bod yn amlwg yn ymfalchïo yn y gwaith o gynnal a chadw eu hamgylchedd.

Mae'r holl gofnodion papur yn cael eu cadw mewn cypyrddau wedi cloi.

Roedd rhai posteri'n dangos gwybodaeth ddefnyddiol ar yr hysbysfwrdd yn yr ystafell aros, ac roedd rhywfaint o daflenni ar gael yn y dderbynfa.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran Profiad y Claf, Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, ac Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol M. J. Taylor yn cael sylw ac yn cynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses barhaus o arolygu deintyddol.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol M. J. Taylor

## Dyddiad yr Arolygiad: 18 Tachwedd 2014

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| 7 | Dangos gwybodaeth am sut i wneud cŵyn, gan gynnwys cyrff perthnasol eraill y gellir cyfeirio'r gŵyn atynt, yn y brif ardal aros, gan ddefnyddio maint ffont ac iaith sydd mor hygyrch â phosibl i boblogaeth y practis. | | | |
| | **Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru** | | | |
| 8 | Dylid sicrhau hanes meddygol cyfredol i bob claf, a dylai'r deintydd eu cydlofnodi er mwyn cadarnhau eu bod wedi cael eu darllen. | | | |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 8 | Rhaid nodi'r rheswm dros fynychu, y symptomau, a chydsyniad y claf ar bob cofnod claf. | | | |
| 9 | Penderfynu a yw'r cam dadheintio ychwanegol yn briodol (cysylltu â'r gwneuthurwr) a diwygio'r arfer hwn yn ôl y cyngor a dderbynnir. | | | |
| 9 | Sicrhau bod offerynnau'n cael eu cadw am y cyfnod a nodir gan y canllawiau diweddaraf yn unig, a nodi dyddiadau sterileiddio yn eglur arnynt. | | | |
| 9 | Sicrhau cyngor gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â'r defnydd o offer radiograffeg yn yr adeilad. | | | |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| 10 | Sicrhau bod cofnodion arfarniadau staff yn dangos dyddiad ac yn cynnwys cynllun ar gyfer y dyfodol sy'n ystyried meysydd ar gyfer datblygiad. | | | |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |

**Cynrychiolydd y Practis: Mr M. J. Taylor**

**Enw (printiwch):** ........................................................................................

**Teitl:** ........................................................................................

**Llofnod:** ........................................................................................

**Dyddiad:** ........................................................................................